



1955 - 2011

# Jobs

## Arloeswr y chwyldro cyfrifiadurol personol

Roedd Steve Jobs yn arloeswr a gweledydd o gyfrifiadura personol. Gyda Steve Wozniak, sefydlodd Jobs Apple Inc. ym 1976 a thrawsnewidodd y cwmni'n gyflym i fod yn arweinydd byd mewn cyfrifiadura personol. Yn cael ei ystyried yn eang yn athrylith diwydiannol, fe oruchwyliodd lansiad cyfrifiaduron personol chwyldroadol fel yr Apple II ym 1977 a Macintosh ym 1984. Roedd Steve yn blentyn i ddau fyfyrwr prifysgol, a roddodd ef i'w fabwysiadu i'r teulu Jobs. Roedd yn graff ac yn garismatig ond gadawodd y coleg i roi cynnig ar wahanol lwybrau cyn cyd-sefydlu Apple.

Gadawodd Jobs y cwmni ym 1985, gan lansio NeXT, cwmni sy'n gwneud gweithfannau yn Unix, a Pixar Animation Studios. Gan ddychwelyd i Apple fwy na degawd yn ddiweddarach bu'n goruchwyllo'r gwaith o greu rhagor o gynhyrchion chwyldroadol fel yr iMac, iPod, iPad, iPhone ac iWatch, ynghyd â gwasanaethau digidol cysylltiedig iTunes, AppStore, Apple TV, iCloud. Mae Apple hefyd yn enwog am ei ymgyrchoedd hysbysebu arloesol a siopau manwerthu.

Bu farw Jobs yn 56 oed yn dilyn brwydr hir gyda chanser y pancreas.

**Enw llawn:** Steven Paul Jobs

**Ganwyd:** 24 Chwefror 1955

**Bu farw:** 5 Hydref 2011

**Cartref:** Califfornia, UDA

**Swydd:** Entrepreneur, dylunydd diwydiannol

**Yn adnabyddus am:** Roedd yn arloeswr y chwyldro cyfrifiadurol personol gyda Steve Wozniak; Cyd-grewr yr Apple II, Macintosh, iPod, iPhone, iPad, ac Apple Stores cyntaf



Casgliad  
Hanes  
Cyfrifiadura

**technocamps**

@technocamps

